Please read in conjunction with the information provided in the introductory section above.

WELSH TEST SPECIFICATION

1 AIMS

The AEA in Welsh should encourage students to:

- demonstrate a deeper and more perceptive understanding than required for Advanced GCE synoptic units when analysing and evaluating texts;
- respond to challenging stimuli in a perceptive, relevant and precise manner;
- demonstrate their capacity for developing ideas and critical thinking in a structured, perceptive and original manner;
- use a wealth of language accurately and fluently.

2 CONTENT

The AEA in Welsh will require candidates to:

- use, synthesise and apply the knowledge, understanding and skills set out in the Advanced GCE specification when discussing unfamiliar challenging texts;
- develop ideas clearly and cogently; articulate independent opinions and judgements when considering in detail the significance of the texts and different viewpoints;
- understand, compare and analyse perceptively different types of texts and texts from different periods conveying a personal response and using appropriate terminology;
- use a wealth of language resources correctly and appropriately.

3 ASSESSMENT OBJECTIVE

The AEA in Welsh will assess candidates' ability to apply and communicate effectively their knowledge and understanding of Welsh using the skills of critical analysis, evaluation and synthesis.

4 SCHEME OF ASSESSMENT

Supervision and duration of assessment
External assessment in Welsh is a three hour written examination.
A pack of reading material will be provided for the candidate. The pack should include a range of unfamiliar and challenging texts in a variety of literary and non-literary forms and from different periods. The extracts should be chosen to allow candidates to make connections and comparisons between them. Questions will be set in two sections.

- A question/questions will be set which will allow candidates to show their ability to analyse and evaluate perceptively unfamiliar and challenging texts and to make connections between these texts and texts with which they are familiar. The questions will assess the perceptiveness and originality of the candidate's critical thinking as well as the ability to discuss different viewpoints using evidence to justify his/her conclusions.
- One question will give candidates an opportunity to write on a subject related to the stimulus material. A question will be set requiring candidates to write for a specific audience and for a particular purpose.

Use of resources
Dictionaries and any other resources will not be permitted in the assessment.

5 PERFORMANCE LEVEL DESCRIPTORS

Distinction
Candidates:

- develop ideas, interpret and analyse unfamiliar texts perceptively, logically and convincingly displaying an excellent understanding of them;
- discuss perceptively and thoroughly, argue a viewpoint convincingly and support it with information and evidence which has been synthesised skilfully;
- make original connections and comparisons between familiar and unfamiliar texts and concepts and when interpreting meaning and supporting theories and opinions, and assimilate them convincingly;
- show maturity when adopting and sustaining a style appropriate to the requirements of the task; deal with register, form and audience sensitively and structure the work skilfully;
- communicate clearly and cogently displaying an exceptional mastery of grammar and syntax using a wealth of language resources accurately.

Merit
Candidates:

- develop ideas, interpret and analyse unfamiliar texts perceptively and logically;
- discuss perceptively and thoroughly explain a viewpoint forcefully and support it with evidence which has been carefully selected and synthesised;
- make thoughtful connections and comparisons between familiar and unfamiliar texts and concepts in order to interpret meaning and support theories and opinions effectively;
- adopt and sustain a style appropriate to the requirements of the task; pay detailed attention to register, form and audience and structure the work carefully;
- communicate clearly and cogently displaying a thorough mastery of grammar and syntax using a wealth of language resources accurately.

MANYLEB CYMRAEG

1 NODAU

Dylai'r DUE mewn Cymraeg annog myfyrwyr i:

- arddangos dealltwriaeth ddyfnach a mwy treiddgar na'r hyn sy'n angenrheidiol ar gyfer unedau synoptig TAG Safon Uwch wrth ddadansoddi a gwerthuso testunau
- ymateb yn dreiddgar, perthnasol a diwastraff i symbyliadau heriol
- arddangos y gallu i ddatblygu syniadau a rhesymu mewn modd treiddgar, gwreiddiol a strwythuredig
- defnyddio cyfoeth o adnoddau iaith yn gywir ac yn rhwydd

2 CYNNWYS

Bydd y DUE mewn Cymraeg yn mynnu bod ymgeiswyr yn:

- defnyddio, cyfosod a chymhwyso'r wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a nodwyd ym manyleb TAG Safon Uwch Cymraeg wrth drafod testunau heriol anghyfarwydd
- datblygu syniadau yn glir ac yn groyw; mynegi barn annibynnol wrth ystyried yn fanwl arwyddocâd y testunau a safbwyntiau gwahanol
- deall, cymharu a dadansoddi'n dreiddgar wahanol fathau o destunau a thestunau o wahanol gyfnodau gan gyfleu ymateb personol a defnyddio termau addas
- defnyddio cyfoeth o adnoddau iaith yn gywir ac yn briodol

3 AMCAN ASESU

Bydd y DUE mewn Cymraeg yn asesu gallu'r ymgeiswyr i gymhwyso a chyfathrebu'n effeithiol eu gwybedaeth aiu dealltwriaeth o'r Gymraeg gan ddefnyddio sgiliau dadansoddi'n feirniadol, gwerthuso, a chymhathu.

4 CYNLLUN ASESU

Arolygaeth a hyd yr asesiad
Arholiad ysgrifenedig tair awr o hyd fydd yr asesiad.
Bydd y corff dyfarnu yn darparu pecyn o ddeunyddiau darllen amrywiol i'r ymgeisydd. Dylai'r pecyn gynnwys ystod o destunau anghyfarwydd a heriol mewn amrywiaeth o ffurfiau llenyddol ac anllenyddol ac o wahanol gyfnodau. Dylai'r darnau gael eu dewis i ganiatáu i ymgeiswyr wneud cysylltiadau a chymariaethau rhyngddynt. Gosodir y cwestiynau mewn dwy adran.

- Bydd y corff dyfarnu'n gosod cwestiwn/cwestiynau fydd yn caniatáu i'r ymgeiswyr arddangos eu gallu i ddadansoddi a gwerthuso'n dreiddgar destunau anghyfarwydd a heriol ac i wneud cysylltiadau rhwng y testunau hyn a thestunau sy'n gyfarwydd iddo/iddi. Bydd y cwestiynau'n asesu treiddgarwch a gwreiddioldeb barn yr ymgeisydd yn ogystal â'r gallu i drafod gwahanol safbwyntiau gan ddefnyddio tystiolaeth i gyfiawnhau ei gasgliadau/ei chasgliadau
- Bydd un cwestiwn yn rhoi cyfle i'r ymgeisydd ysgrifennu ar bwnc cysylltiedig â'r deunydd ysgogol. Gosodir cwestiwn fydd yn gofyn am ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa benodol ac i bwrpas arbennig.

4. Defnydd o adnoddau

Ni chaniateir defnyddio geiriaduron nac unrhyw adnoddau eraill yn yr asesiad.

5 DISGRIFIADAU LEFEL PERFFORMIAD

Rhagoriaeth
Bydd ymgeiswyr yn:

- datblygu syniadau, dehongli a dadansoddi testunau anghyfarwydd yn dreiddgar, rhesymegol ac argyhoeddiadol gan arddangos dealltwriaeth ragorol ohonynt
- trafod yn dreiddgar ac yn drylwyr gan ddadlau safbwynt yn argyhoeddiadol a'i gefnogi â gwybodaeth a thystiolaeth sydd wedi'u cyfuno'n gelfydd
- gwneud cysylltiadau a chymariaethau gwreiddiol rhwng testunau a chysyniadau cyfarwydd ac anghyfarwydd ac wrth ddehongli ystyr a chefnogi damcaniaethau a barn, a'u cymhathu'n argyhoeddiadol
- dangos aeddfedrwydd wrth fabwysiadu a chynnal arddull sy'n briodol i ofynion y dasg, ymdrin â chywair, ffurf a chynulleidfa yn sensitif a strwythuro'r gwaith yn gelfydd.
- cyfathrebu'n glir a chroyw gan arddangos meistrolaeth eithriadol ar ramadeg a chystrawen wrth ddefnyddio cyfoeth o adnoddau iaith yn gywir.

Teilyngdod

Bydd ymgeiswyr yn:

- datblygu syniadau, dehongli a dadansoddi testunau anghyfarwydd yn dreiddgar ac yn rhesymegol
- trafod yn dreiddgar ac yn drylwyr gan egluro safbwynt yn rymus a'i gefnogi â thystiolaeth wedi'i dethol a'i chyfuno'n ofalus
- gwneud cysylltiadau a chymariaethau meddylgar rhwng testunau a chysyniadau cyfarwydd ac anghyfarwydd er mwyn dehongli ystyr a chefnogi damcaniaethau a barn yn effeithiol
- mabwysiadu a chynnal arddull sy'n briodol i ofynion y dasg; rhoi sylw manwl i gywair, ffurf a chynulleidfa a strwythuro'r gwaith yn ofalus
- cyfathrebu'n glir a chroyw gan arddangos meistrolaeth drylwyr ar ramadeg a chystrawen wrth ddefnyddio cyfoeth o adnoddau iaith yn gywir